Annwyl Bawb

E-FWLETIN 16 MAI 2008

Dyma fy e-fwletin cyntaf fel Rheolwr Morlan a rhaid cyfaddef fy mod yn edrych ymlaen yn fawr at sialens y swydd ac i ddod i adnabod y rheiny ohonoch sy'n ymwneud â gwaith y Morlan ac sy'n cefnogi ei weithgareddau.

Bu fy mhythefnos cyntaf yn y swydd yn brysur, amrywiol ac yn tu hwnt o ddifyr. Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd perfformio drama *Bryn Gobaith* gan gwmni Glass Shot, cyfarfod agored gan Amnest Rhyngwladol, cyngerdd gan Gôr Gobaith i godi arian i Médecin Sans Frontières a Ffair Lyfrau, yn ogystal â'r gweithgareddau wythnosol arferol a gynhelir yn y Morlan.

Yr wyf yn dal i ddysgu am y swydd – ac am y Morlan ei hun – ac mae'n siŵr y bydd hynny'n parhau dros yr wythnosau (a'r misoedd!) nesaf. Mae pawb wedi bod yn groesawgar iawn ond rhaid diolch yn arbennig i Alun Morris ac Ann Davies am eu cymorth a'u harweiniad yn ystod y cyfnod hwn.

- Gellir gweld arddangosfa *Faded Memories* gan Lisa Evans yng nghyntedd Morlan ar hyn o bryd. Nid gwaith celf cyffredinol yw'r gwaith hwn ond cyfres o baneli testun a ffotograffau a ddisgrifir fel *"performance writing"*. Mae'r gwaith yn ymwneud â thrais yn y cartref ac yn sôn am brofiadau Lisa a merched eraill. Mae Lisa yn defnyddio dulliau ysgrifennu i'w galluogi i fynegi'r broses o iachau ac i dorri'n rhydd o atgofion y boen. Mae'r arddangosfa ymlaen tan ddiwedd yr wythnos.

- Wythnos nesaf – o ddydd Mercher, 21 Mai i ddydd Sadwrn, 24 Mai – bydd cwmni o'r Brifysgol yn perfformio'r sioe gerdd *Jesus Christ Superstar* yma. Dyma un o glasuron Tim Rice ac Andrew Lloyd Webber ac yn sioe sy'n sicr o apelio at lawer. Mae tocynnau yn £5 yr un ac ar gael trwy e-bostio anm4@aber.ac.uk.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych chi'n dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr